ASTUDIAETHAU IECHYD

Ar ôl graddio mewn Astudiaethau Iechyd, fel arfer byddwch yn gallu:

- Cyfathrebu ag eraill mewn modd clir a dealladwy gan ddefnyddio geiriau neu rifau, drwy waith ysgrifenedig yn defnyddio confensiynau academaidd priodol.
- Cyflwyno syniadau a dadleuon ar lafar mewn cyflwyniadau a seminarau ffurfiol, a chynnal trafodaethau anffurfiol mewn amrywiaeth o amgylcheddau.
- Gweithio gydag eraill wrth baratoi a chyflwyno gwaith grŵp, a chymryd cyfrifoldeb am faes cytun o weithgarwch ar y cyd.
- Cyd-drafod yn anffurfiol â chydweithwyr ac yn ffurfiol ag aelodau sefydliadau.
- Nodi a chynnig atebion i broblemau, mewn perthynas â maes sylweddol astudiaethau iechyd ac o ran materion addysgol a chymdeithasol eraill.
- Gweithio'n annibynnol a nodi anghenion datblygu sgiliau personol parhaus.
- Cydnabod materion cyfle cyfartal a nodi camau gweithredu priodol.
- Defnyddio TG i storio, adfer a chynhyrchu deunydd ar gyfer gwaith cwrs astudiaethau iechyd, gan ddefnyddio sgiliau prosesu geiriau, cronfeydd data a thaenlenni.
- Casglu a dadansoddi gwybodaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau gan ddefnyddio systemau â llaw a systemau electronig priodol.
- Myfyrio ynghylch ac adolygu cynnydd yn eich astudiaethau eich hun, a gofyn am gymorth neu arweiniad fel y bydd yn briodol er mwyn gwella'ch datblygiad personol.
- Cymharu amrywiaeth o gyd-destunau iechyd, gan gynnwys unigol a sefydliadol, cenedlaethol a rhyngwladol.
- Dadansoddi materion iechyd a gwybodaeth a gesglir o amrywiaeth eang o ddisgyblaethau.
- Syntheseiddio dadleuon cydlynol o amrywiaeth o ddamcaniaethau dadleuol.
- Defnyddio profiad personol a byw iechyd a salwch drwy'r sgil o fyfyrio a gwneud cysylltiadau rhwng profiad unigol iechyd a materion iechyd a'r elfennau strwythurol ehangach sy'n berthnasol i iechyd.
- Cyflwyno dadleuon damcaniaethol o fewn amrywiaeth o gyd-destunau astudiaethau iechyd.
- Defnyddio ymchwil a methodolegau ymchwil i leoli, adolygu a gwerthuso canfyddiadau ymchwil sy'n berthnasol i iechyd a materion iechyd, ledled amrywiaeth o ddisgyblaethau.

Cipolwg ar Astudiaethau Iechyd

Sources:

Mae astudiaeth o iechyd yn ymwneud â'r holl agweddau ar brofiadau dynol mewn iechyd a salwch. Mae astudiaethau iechyd fel disgyblaeth yn archwilio'r ffactorau hynny sydd naill ai'n cynyddu neu'n lleihau lles dynol. Mae'n cymryd agwedd amlddisgyblaeth a rhyngddisgyblaeth wrth archwilio iechyd a salwch yn feirniadol yn ei gyd-destunau ehangach o faterion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, a chymharu profiadau gwahanol wledydd, diwylliannau neu grwpiau. Mae'n bwnc seiliedig ar ymchwil sy'n ceisio ychwanegu at wybodaeth gyfredol yn gyson.